OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2382 (Cy.255)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r Dwyrain o Ruthun, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed 23 Medi 2011

Yn dod i rym 3 Hydref 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Man i'r Dwyrain o Ruthun, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr *"cyfnod y gwaith" ("works period"*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 06.00 o'r gloch ar 3 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud oddi yno;

ystyr *"y darn o'r gefnffordd"*("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd.